OXFORD BROOKES UNIVERSITY

ipc institute of public care

Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus

Tystysgrif Ôl-radd mewn Arweinyddiaeth Strategol a Gweithredol ym maes Gofal Cymdeithasol

Rhaglen a Llawlyfr Myfyrwyr

2026-2027

Cod JACS (code): N211

Cod HECoS (code): 100501

Cynnwys

1. Rhagarweiniad a throsolwg o'r rhaglen 4

2. Canlyniadau dysgu'r rhaglen 8

2.1. Llythrennedd Academaidd 8

2.2. Llythrennedd ymchwil 8

2.3. Hunan-ymwybyddiaeth feirniadol a llythrennedd personol 8

2.4. Llythrennedd digidol a gwybodaeth 9

2.5. Dinasyddiaeth weithredol 9

3. Gofynion mynediad 9

4. Addysgu, dysgu ac asesu 10

4.1. Addysgu a dysgu 10

4.2. Asesu 11

4.3. Graddau, marcio a safoni 12

4.4. Amgylchiadau eithriadol 13

5. Yr hyn a ddisgwyliwn gennych 14

5.1. Polisi Prifysgol Oxford Brookes ar Ymrwymiadau a Rennir 14

5.2. Arferion Academaidd 15

5.3. Deallusrwydd Artiffisial a'i ddefnydd yn yr asesiad hwn 16

5.4. Cyfrinachedd 17

5.5. Polisi iaith 17

6. Modiwl WFPC70011 Datblygu'n Arweinydd 17

6.1. Canlyniadau dysgu'r modiwl 18

6.2. Cynnwys y modiwl 18

6.3. Nodi'r oriau dysgu 18

6.4. Tasg asesu modiwl 19

6.5. Hanes dilysu modiwl 20

7. Modiwl WFPC7012 Llunio Gofal Cymdeithasol 20

7.1. Canlyniad dysgu modiwl 20

7.2. Cynnwys modiwl 21

7.3. Nodi'r oriau dysgu 21

7.4. Modiwl asesu tasg 22

7.5. Hanes dilysu'r modiwl 22

8. Modiwl WFPC7013 Cyflenwi Canlyniadau Gwell 23

8.1. Canlyniadau dysgu modiwl 23

8.2. Cynnwys modiwl 24
8.3. Nodi'r oriau dysgu 24
8.4. Asesiad y modiwl 24
8.5. Hanes Dilysu 25
9. Eich llais 25
9.1. Cynrychiolaeth myfyrwyr 26
9.2. Cwynion ac apeliadau 26
10. Cymorth i Fyfyrwyr 27
10.1. Tiwtoriaid a gweinyddwyr IPC 27
10.2. Cymorth astudio 28
10.3. 10.3. Diogelu 28
10.4. Adnoddau Dysgu 28
10.5. Siarter Brookes 30
Atodiad 1 31
Cytundeb rhwng y Myfyriwr a'r Asiantaeth Gyflogi 31

1. Rhagarweiniad a throsolwg o'r rhaglen

Darperir Tystysgrif Ôl-radd mewn Arweinyddiaeth Strategol a Gweithredol ym maes Gofal Cymdeithasol gan Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) sy'n rhan o'r Gyfadran Iechyd, Gwyddorau a Thechnoleg ym Mhrifysgol Oxford Brookes. Comisiynwyd y rhaglen ar gyfer yr IPC gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar ran *Pwyllgor Rheoli Rhaglen Genedlaethol (NPMC) Cymru*

A ninnau'n sefydliad prifysgol nodedig, rydyn ni'n gweithio gyda'n cleientiaid i gyflenwi gwell canlyniadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gennym dîm o 40 aelod o staff ac aelodau cyswllt sy'n gweithio ar draws y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon gyda llywodraeth ganolog a lleol, sefydliadau iechyd a darparwyr annibynnol a darparwyr y sector gwirfoddol. Mae gennym ystod o fecanweithiau cyflenwi, gan gynnwys prosiectau ymgynghorol, ymchwil gymhwysol a gwerthuso, gwefannau arbenigol a gwybodeg a rhaglenni datblygu sgiliau Rydyn ni'n defnyddio'n profiad proffesiynol a'n trylwyredd academaidd i yrru gwelliant ac arloesedd ym maes gofal.

Yn IPC rydyn ni'n darparu ymchwil a gwerthuso cymhwysol, ymgynghoriaeth, a hyfforddiant i helpu ymddiriedolaethau'r GIG, cyrff y llywodraeth, cynghorau, elusennau a sefydliadau masnachol i gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles pobl. Os hoffech ddarganfod mwy am waith IPC ewch i https://ipc.brookes.ac.uk/.

Mae'r trawsnewid mewn gofal cymdeithasol a geir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn i bawb sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol feddwl ac ymddwyn yn wahanol o ran comisiynu a chyflenwi gwasanaethau. Mae rheolwyr canol yn chwarae rôl allweddol yn hyn o beth fel arweinwyr lleol o fewn eu sefydliadau eu hun ac ar draws partneriaethau lleol. Lluniwyd y rhaglen genedlaethol yn benodol i'ch helpu i wella'ch arweinyddiaeth strategol a gweithredol yng nghyd-destun gofynion y Ddeddf. Nod y rhaglen ydy:

- Helpu rheolwyr canol ym maes gofal cymdeithasol ddatblygu'r capasiti i fynd i'r afael â sialensiau polisi ac arferion mewn amgylchedd cyfnewidiol.
- Helpu rheolwyr canol i ddatblygu sgiliau strategol arweinyddiaeth a rheoli i arwain gwasanaethau cymdeithasol i'r dyfodol.
- Datblygu carfan ar draws Cymru sy'n meddu ar sgiliau datblygedig, priodweddau ac ymwybyddiaeth – o fewn fframwaith cyffredin a rennir.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen, bydd gennych well dealltwriaeth o nodweddion arweinyddiaeth effeithiol ac wedi gwella'ch galluedd a'ch gallu eich hunan yn eich rôl. Byddwch yn fwy ymwybodol o'r cyfleoedd i drawsnewid pethau ac yn meddu ar y sgiliau a'r arfau i weithredu newid yn lleol. Bydd y rhaglen hefyd yn datblygu'ch sgiliau personol trosglwyddadwy megis rheoli prosiect, gwerthuso a meddwl yn feirniadol.

Diben y llawlyfr hwn ydy cynnig gwybodaeth i chi sy'n sail i gynllunio, darparu a rheolaeth eich cwrs. Cofiwch ymgyfarwyddo â'r cynnwys ac i siarad â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau. Nid dyma'r unig lawlyfr sydd ar gael i chi. Ochr yn ochr â'r llawlyfr hwn mae Llawlyfr y Brifysgol hefyd, sy'n rhoi gwybodaeth i chi am bolisïau

a rheoliadau'r Brifysgol yn ogystal â gwasanaethau cymorth a lles myfyrwyr sydd ar gael i chi.

Astudir y rhaglen dros gyfnod o bymtheg mis. Mae tri modiwl gorfodol yn y rhaglen, a'r tri ar lefel ôl-radd. Ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, byddwch yn ennill Tystysgrif Ôl-radd mewn Arweinyddiaeth Strategol a Gweithredol ym maes Gofal Cymdeithasol – gwerth 60 credyd lefel ôl-radd – i helpu'ch datblygiad proffesiynol parhaus (DPP/CPD). Isod. ceir tabl yn rhoi braslun o strwythur y rhaglen. Mae gofyn astudio'r modiwl Datblygu fel Arweinydd (WFPC7011) cyn astudio'r modiwlau eraill. Mae hyn yn golygu na allwch gychwyn ar fodiwlau eraill cyn i chi wneud WFPC7011.

Enw'r Modiwl	Cod y Modiwl	Credydau	Statws
Datblygu fel Arweinydd	WFPC7011	20	Gorfodol
Llunio Gofal Cymdeithasol	WFPC7012	20	Gorfodol
Cyflenwi Canlyniadau Gwell	WFPC7013	20	Gorfodol

Mae'r rhaglen yn cychwyn gyda pharatoi manwl a gweithgareddau ymglymu gan gynnwys seminar cychwynnol ar-lein ar eich cyfer chi a noddwr eich rhaglen, sydd ddim yn orfodol ond a argymhellir yn fawr. Ar ôl y seminar gofynnir i chi gwblhau asesiad 360 gradd. Mae'r asesiad 360 gradd yn holiadur ar-lein y byddwch chi, eich rheolwr llinell a detholiad o'ch cydweithwyr yn ei gwblhau. Bydd hwn yn eich helpu i lunio cynllun datblygu personol fydd yn rhoi manylion o'ch anghenion dysgu. Bydd angen i noddwr eich rhaglen gytuno ar gynllun datblygu personol o'u gwybodaeth ohonoch chi yn y gweithle er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys amcanion datblygu priodol. Bydd yr asesiad 360 gradd yn eich helpu i lunio'r Cynllun Datblygiad Personol (PDP). Ni fydd y PDP yn cael ei raddio'n unigol ac ni fydd yn cyfrannu at eich gradd derfynol, ond mae'n orfodol ac ni fyddwch yn pasio'r aseiniad cyntaf heb ei gwblhau.

Wedyn, byddwch yn cael sesiynau dysgu symbylol grŵp sy'n cyfuno'r mewnbwn damcaniaethol ag astudiaethau achos ac ymarferion ymarferol, yn ogystal â darparu cyfle i chi adfyfyrio ar eich dysgu drwy setiau 'dysgu drwy wneud' (action learning).

Cewch bedair sesiwn unigol o hyfforddiant datblygiadol yn ystod y rhaglen i'ch cynorthwyo i allu cymhwyso'ch dysgu'n effeithiol yn eich gweithle. Cewch hefyd gymorth Ymgynghorydd Academaidd i'ch helpu i ddiwallu gofynion academaidd y rhaglen.

Cewch un asesiad ar gyfer pob modiwl a fydd yn cyfrannu at radd derfynol eich dyfarniad. Gweler adran 4 am ragor o wybodaeth ar asesu, graddau a marcio. Rydyn ni'n eich cymell i gwblhau'ch asesiadau, a derbyn cymorth unigol, yn y Gymraeg. Gosodir yr asesiadau a chytuno arnyn nhw yng nghyd-destun eich sefyllfa waith ac felly, gellir eu teilwra'n unigol i gwrdd ag anghenion yr asiantaeth sydd yn eich cyflogi.

Mae'r rhaglen yn gorffen gyda gwerthusiad o weithgareddau'r rhaglen a'ch anghenion dysgu gan gynnwys ail-ymweld â'r asesiad 360 gradd a'ch cynllun datblygu personol.

Isod, ceir diagramau i ddangos gweithgareddau'r rhaglen.

Sefydlu a Chychwyn Rhaglen

- Seminar cychwynnol ar gyfer cyfranogwyr.
- Cychwyn yr asesiad 360 gradd
- Matsio gydag hyfforddwr

Datblygu fel Arweinydd

- Rôl a nodweddion arweinyddiaeth mewn gofal cymdeithasol
- Sut i ddylanwadu ar eraill a chydweithio'n effeithiol ar draws ffiniau
- Deall effaith y cyd-destun gwleidyddol lleol a chenedlaethol ar eich rôl

Sesiynau Grŵp yn cynnwys:

- Sesiynau mewnbwn ac ymarferion
- Sesiwn hyfforddi datblygiadol

A'u dilyn gan:

- Cymorth 1:1 gan Ymgynghorydd Academaidd
- 3 sesiwn datblygu hyfforddi

Asesiad:
Cynllun datblygiad personol asesedig, dadansoddiad ac adfyfyrio

Llunio Gofal Cymdeithasol

- Llunio'r farchnad i gyflenwi gwasanaethau trawsffurfiol ar gyfer ein dinasyddion
- Yr hyn sy'n bwysig wrth i iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio'n effeithiol fel dull o gyflenwi canlyniadau gwell
- Ymglymu'n bositif gyda'n cymunedau lleol

Sesiynau Grŵp yn cynnwys:

- Sesiynau mewnbwn ac ymarferion
- 'Action learning' (dysgu drwy wneud)
- Cyflwyniad

A'u dilyn gan:

- Cymorth 1:1 gan Ymgynghorydd Academaidd
- Hunan-astudiaeth

Asesiad:
Achos astudiaeth asesedig a chyflwyniad

Cyflenwi Canlyniadau Gwell

- Arwain a chynorthwyo datblygiad a newid
- Gweithredu newid hinsawdd mewn amgylchedd trawsnewidiol
- Gwella a rheoli perfformiad o fewn timoedd, ar draws ffiniau sefydliadol a gydag ystod o randdeiliaid

Sesiynau Grŵp yn cynnwys:

- Sesiynau mewnbwn ac ymarferion
- Dysgu gweithredol

A'u dilyn gan:

- Cymorth 1:1 gan Ymgynghorydd Academaidd
- Hunan-astudiaeth

Asesiad:
Prosiect asesedig yn seiliedig ar waith

Ethos y rhaglen ydy cynorthwyo dysgu myfyrwyr drwy bartneriaeth waith yn cynnwys y myfyriwr, yr asiantaeth sydd yn eu cyflogi a'r IPC fel darparwr y rhaglen. Mae gan yr asiantaethau sy'n cyflogi ymglymiad parhaus yn y rhaglen a bydd y grŵp myfyrwyr yn cynorthwyo ei gilydd drwy gydol y rhaglen i rannu sgiliau, gwybodaeth ac arferion. Bydd myfyrwyr yn cael cyfle i ddatblygu'n bersonol ond hefyd i ymgorffori'r dulliau o fynd ati a'r sgiliau a ddysgwyd ar y rhaglen yn eu sefydliad eu hun. Mae'r dull o fynd ati yn cydbwyso anghenion personol yn ogystal ag anghenion datblygu sefydliadol.

2. Canlyniadau dysgu'r rhaglen

Ar ôl cwblhau'r rhaglen byddwch yn arddangos y Priodoleddau Graddedigion Brookes canlynol ar lefel ôl-radd

2.1. Llythrennedd Academaidd

- Dealltwriaeth feirniadol o egwyddorion a damcaniaethau strategaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth a'u cymhwyso'n effeithiol yn yr amgylchedd gofal cymdeithasol er mwyn gwella a datblygu arferion sefydliadol.
- Gwybodaeth fanwl o'r dylanwadau cyd-destunol, yn cynnwys dealltwriaeth o'r polisi a'r sialensiau sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol a llesiant.
- Ystyried hinsawdd y sefydliad yn feirniadol a gallu'r cyfryw sefydliad i newid a datblygu.

2.2. Llythrennedd ymchwil

- Y gallu i gaffael a dadansoddi data a gwybodaeth er mwyn gwerthuso pa mor berthnasol a dilys ydyn nhw ac i gyfosod ystod o wybodaeth yng nghyd-destun sefyllfaoedd newydd .
- Dealltwriaeth gysyniadol sy'n eich galluogi i werthuso cywirdeb manwl a dilysrwydd ymchwil a gyhoeddwyd ac i asesu pa mor berthnasol ydy'r ymchwil hwnnw i sefyllfaoedd newydd; i ddefnyddio ymchwil sydd eisoes yn bodoli i ganfod dulliau newydd neu ddiwygiedig o ddelio ag arferion; ac i werthuso problemau yn feirniadol a llunio argymhellion a fydd yn cyfrannu at wneud penderfyniadau strategol.
- Y gallu i gynnal ymchwil i faterion busnes a rheoli sy'n gofyn am wybyddiaeth gyda lefel briodol o ddata busnes, ffynonellau ymchwil a methodolegau addas; ac i'r cyfryw fod yn sail i'r broses gyffredinol o ddysgu

2.3. Hunan-ymwybyddiaeth feirniadol a llythrennedd personol

- Y gallu i ystyried a gwerthuso cymhwysedd personol ac i ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddysgu personol a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Hunan-gyfeirio a'r gallu i weithredu'n annibynnol i gynllunio a rhoi prosiectau strategol ar waith; bod yn rhagweithiol yn yr angen am newid a meddu ar y gallu i reoli newid.

- Hunan-hyder i reoli eraill, i ddylanwadu ar eraill gan gynnwys arweinwyr a gweithio ar draws y sector cyhoeddus ac i weithredu'n effeithiol mewn tîm ac mewn rôl arweinydd fel bo'n briodol i sefyllfa benodol.

2.4. Llythrennedd digidol a gwybodaeth

- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio ystod o gyfryngau (er enghraifft, ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy gyfrwng digidol).
- Y gallu i ddefnyddio technoleg briodol i chwilio am wybodaeth sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol ac i werthuso'r wybodaeth honno yn feirniadol; cymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein; ac fel arall defnyddio technoleg gwybodaeth i gynorthwyo a galluogi rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol.

2.5. Dinasyddiaeth weithredol

- Ymwybyddiaeth feirniadol o gymhlethdod gwahanol safbwyntiau, diwylliannau a gwerthoedd
- Dealltwriaeth feirniadol o'ch cryfderau a'ch gwendidau fel arweinydd, gan gynnwys y gallu i gwestiynu'ch safbwyntiau chi eich hunan a safbwyntiau pobl eraill ac i weithredu o fewn amgylcheddau cymhleth ac anrhagweladwy.
- Y gallu i reoli'n effeithiol y timoedd sy'n cyflenwi canlyniadau da ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yng ngoleuni persbectifau lleol a chenedlaethol, economaidd, gwleidyddol a diwylliannol.

3. Gofynion mynediad

Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at reolwyr canol ym maes gofal cymdeithasol h.y. Rheolwyr Gwasanaethau, Prif Swyddogion, Rheolwyr Gweithredol, Ardal neu Grŵp neu Benaethiaid Gwasanaethau. Beth bynnag fo teitl eich swydd, rhaid bod eich briff tu hwnt i fod yn rheolwr tîm unigol, gan gynnwys portffolio cymysg o gyfrifoldebau a rôl yn natblygiad strategol eich sefydliad, yn aml yn gysylltiedig ag asiantaethau. Fel arfer, bydd disgwyl i chi:

- Feddu ar radd gyntaf a/neu gymhwyster cydnabyddedig mewn gwaith cymdeithasol (neu debyg ar gyfer staff heb fod yn weithwyr cymdeithasol) neu brofiad proffesiynol cyfwerth.
- Yn dal swydd rheolwr canol ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru (fel a ddiffinnir uchod).
- Cael cefnogaeth y sefydliad sy'n eich cyflogi
- Feddu ar y gallu i astudio ar lefel ôl-raddedig

Mae disgwyl i'r asiantaeth sy'n eich cyflogi ddarparu cymorth priodol ar eich cyfer tra byddwch ar y rhaglen ac yn enwedig darparu noddwr rhaglen ar eich cyfer (eich rheolwr llinell o bosibl) i'ch cynorthwyo drwy gydol y rhaglen drwy gynnig cyngor ffurfiol ac anffurfiol, cymorth, cytuno i'r prosiect yn y gweithle – ac arsylwi'r prosiect – ac adolygu'r cynnydd ar asesiadau. Trafodir y cymorth sydd ei angen yn fanwl yn y

seminar cychwynnol. Mae gofyn i chi a'ch cyflogwr gwblhau cytundeb ysgrifenedig cyn ymrestru ar y rhaglen er mwyn i chi gytuno ar y canlynol:

- Ymglymiad noddwr rhaglen i'ch cynorthwyo drwy gydol y rhaglen.
- Y cewch amser rhydd ar gyfer hunan-astudiaeth ac i gwblhau asesiadau.
- Bod unrhyw anghenion mynediad neu gyfathrebu sydd gennych ac sy'n berthnasol i'r rhaglen ac yn cael eu trosglwyddo i'r IPC.
- Y byddwch yn mynychu'r holl ddyddiau'r rhaglen a addysgir.
- Y byddwch yn cwrdd â'r dedleins a osodwyd ar gyfer cyflwyno'r gwaith a aseswyd.
- Y cewch fynediad i'r rhyngrwyd er mwyn i chi allu lawrlwytho'r adnoddau a argymhellir, mynychu'r rhith sesiynau a chyflwyno'r gwaith asesedig ac i gael cymorth i allu defnyddio technoleg gwybodaeth i gymryd rhan yn Rhith Amgylchedd Dysgu'r Brifysgol (Moodle) - VLE.

Ceir copi o'r cytundeb ysgrifenedig yn **atodiad 1**. Os byddwch yn newid cyflogwr yn ystod y rhaglen, bydd yn bwysig adolygu trefniadau ar gyfer eich parhad ar y rhaglen, ac ar gyfer cwblhau cytundeb newydd, gyda'ch cyflogwr newydd, ac IPC. Er y bydd IPC yn ymdrechu i ddarparu ar gyfer amgylchiadau cyflogaeth newydd myfyrwyr, efallai na fydd yn bosibl i chi gwblhau'r rhaglen os byddwch yn newid cyflogaeth yn ystod y rhaglen, yn enwedig os byddwch yn gadael gofal cymdeithasol.

Mae IPC yn croesawu trafodaeth cyn gynted â phosibl ar unrhyw ohebiaeth benodol neu anghenion mynediad sydd gan fyfyrwyr o ran y rhaglen hon. P'un ai ydy'r rhain yn ymwneud â'r lleoliad, neu waith cwrs, ai peidio, cysylltwch â Gweinyddwr Cwrs IPC ar: ipc_courses@brookes.ac.uk i fynegi'ch anghenion.

4. Addysgu, dysgu ac asesu

4.1. Addysgu a dysgu

Nod y rhaglen ydy hyrwyddo amgylchedd cefnogol lle mae myfyrwyr a thiwtoriaid yn cydweithio i ddatblygu'r dysgu. Mae strategaeth addysgu, dysgu ac asesu y rhaglen yn adlewyrchu ei ddull o ffocysu ar y myfyrwyr ac ar ymarfer. Anogir cyfleoedd i rannu sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd ac, er mwyn manteisio ar y rhain o fewn y grŵp, a defnyddir amrywiaeth o dechnegau addysgu a dysgu:

- Defnyddir gweithgareddau grŵp (e.e. setiau 'action learning' a seminarau) fel dull o rannu gwybodaeth, profiad a sgiliau a datblygu sgiliau beirniadol.
- Anogir hunan-fyfyrio fel dull o ganolbwyntio ar ddatblygu ymarfer unigol.
- Cewch y cyfle i drafod manylion penodol eich gwaith prosiect er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i ddatblygiad eich sefydliad.
- Defnyddir sesiynau hyfforddi unigol i sicrhau eich bod yn gallu cymhwyso'ch dysgu yn effeithiol yn y gweithle.

Lluniwyd y modiwlau i hyrwyddo lefel ôl-radd o sgiliau astudio gan gynnwys y gallu i hunan-fyfyrio. Mae hunan-fyfyrio fel modd o ddysgu yn sylfaenol i'r rhaglen. Drwy

gydol y rhaglen, byddwch yn defnyddio arferion adfyfyrio yn unigol ac mewn grwpiau yn ystod setiau 'dysgu drwy wneud' (action learning) ac o fewn y sesiynau addysgu modiwl.

O gofio bod y sesiynau a addysgir yn cael eu hwyluso yn hytrach na ‘u cyflwyno fel darlith, dydyn ni ddim yn cofnodi sesiynau fel arfer er mwyn hyrwyddo ymglymiad a sgyrsiau agored. Hefyd, ni chaniateir cyfarpar AI sy’n cymryd nodiadau ymuno â sesiynau yn lle myfyrwyr. Gellir cofnodi sesiynau unigol gydag Ymgynghorydd Academaidd yn ôl y gofyn os ydy hyn yn cynorthwyo dysg y myfyrwyr.

4.2. Asesu

Mae asesu yn cwmpasu pob barn am eich gwaith a/neu am eich sgiliau, galluoedd a’ch cynnydd a’r adborth a ddarperir. Rydyn ni’n eich asesu am amrywiaeth o resymau – ysgogiad, i roi adborth, i raddio gwaith ac i ddangos bod y canlyniadau dysgu wedi cael eu cyflawni. Mae'r rhaglen yn dilyn egwyddorion rheoliadau asesu'r brifysgol (assessment regulations) i sicrhau arfer dda a thryloywder yn y prosesau asesu ac adborth. Mae yna wahanol ddulliau o asesu. Dydy asesu ffurfiannol ddim yn cyfrannu at eich gradd gyffredinol ac yn bennaf ei fwriad ydy’ch helpu i ddysgu h.y. rhoi adborth i chi y gallwch ei defnyddio i wella’ch perfformiad yn y dyfodol. Gwaith wedi’i farcio ydy asesiad crynodol ac mae’n cyfrif tuag at eich gradd derfynol. Gwaith cwrs ydy’ch asesiadau crynodol: does dim arholiadau.

Rydyn ni’n defnyddio ystod o dasgau asesu ffurfiannol, gan gynnwys:

- Ymarfer marcio i asesu gwaith dychmygol myfyrwyr neu waith blynyddoedd blaenorol myfyrwyr yn erbyn cynllun asesu ar gyfer asesiadau crynodol.
- Cyflwyniad anffurfiol fel rhan o set dysgu gweithredol.
- Cyflwyno gwaith ffurfiannol ond gorfodol o fraslun prosiect a chynllun prosiect ar gyfer eich darpar brosiect y byddwch yn ei ddefnyddio ar gyfer asesiad crynodol.
- Hunan-asesu ac asesu cymheiriaid yn ystod ac ar ddiwedd rhaglen gan ddefnyddio asesiad 360 gradd.
- Cyflwyniad ffurfiannol ond gorfodol o gynllun datblygiad personol.
- Eich noddwr rhaglen yn arsylwi arfer

Darperir sesiwn briffio grŵp a dau rith diwtorial unigol gydag Ymgynghorydd Academaidd ar gyfer pob modiwl; nod hyn ydy’ch helpu i ddeall y dasg asesu crynodol, cytuno ar ffocws yr asesiad crynodol a chymhwyso sgiliau astudio effeithiol.

Cewch sesiwn briffio am y dasg asesu a gosodir dyddiad pendant i gyflwyno’r gwaith i’w asesu. Mae’r wybodaeth am y dasg asesu a deunyddiau dysgu eraill ar gael i chi eu lawrlwytho o Rith Amgylchedd Dysgu’r Brifysgol (Moodle), gan gynnwys y rhestrau darllen cyfredol ar gyfer y modiwl.

Ar gyfer pob modiwl, cewch gyfle i gael ‘rhith’ diwtorial (sesiwn ar-lein) gydag Ymgynghorydd Academaidd ychydig o wythnosau ar ôl y sesiwn briffio. Bydd eich Ymgynghorydd Academaidd yn rhoi adborth i chi o’r tiwtorial ac ar fraslun eich prosiect a’ch cynllun os yw’n berthnasol. Hefyd, cewch gyfle i gael ‘rhith’ diwtorial

arall gyda'ch Ymgynghorydd Academaidd cyn bod rhaid i chi gyflwyno'ch asesiadau crynodol.

4.3. Graddau, marcio a safoni

50% ydy marc pasio ar gyfer pob modiwl ac felly ar gyfer y dyfarniad yn gyflawn, ac mae'r graddau canlynol yn berthnasol i fodiwlau:

- Rhagoriaeth ydy 70% ac uwch
- Teilyngdod ydy 60 – 69%
- Pas ydy 50 – 59%
- Methu ydy 0 – 49 %

Caiff eich gwaith ei asesu yn ganrannol a dyfernir gradd. https://www.brookes.ac.uk/regulations/completion/award-classification.

Eich gradd ar gyfer pob modiwl fydd cyfartaledd pwysol y graddau a roddir i'r meini prawf. Mae matrics graddio modiwl ar gael i chi ei lawrlwytho o Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol (Moodle), sy'n diffinio'r lefel perfformiad gofynnol fesul gradd ar gyfer pob maen prawf asesu.

Byddwch yn derbyn adborth manwl ac adeiladol am bob un modiwl yn seiliedig ar y meini prawf asesu. Rydyn ni'n ymdrechu i roi'r adborth hwn i chi o fewn tair wythnos o'r dyddiad cyflwyno. Byddwn yn ysgrifennu sylwadau ar dempled yr aseiniad yn egluro'r hyn yr ydych wedi'i wneud yn dda a'r hyn y gellir gwella arno. Os na fyddwch yn pasio aseiniad, gwnawn ein gorau i egluro'r hyn sydd angen ei wneud i lwyddo pan fyddwch yn ail-gyflwyno'r gwaith. Rydyn ni'n eich annog i ddefnyddio unrhyw adborth a gewch ar eich gwaith fel rhan o'r broses o ddatblygu'ch sgiliau academaidd. Sylwer, na ellir marcio'ch aseiniadau yn ddienw oherwydd natur asesiadau crynodol.

- Os na fydd y gwaith a gyflwynwch yn pasio'r tro cyntaf, cewch ei ail-gyflwyno unwaith yn rhagor. Bydd eich Ymgynghorydd Academaidd neu Weinyddwr Cwrs IPC mewn ymgynghoriad â chi yn gosod dedlein newydd i chi ail-gyflwyno'ch aseiniad. Os llwyddwch i basio yn yr ail-gyflwyno, y gradd uchaf y gallwch ei gael ar gyfer y modiwl ydy Pas o 50%. Bydd methu ag ail-gyflwyno'r gwaith neu fethu â phasio'r asesiad ar ôl ei ail-asesu yn golygu nad ydych yn pasio'r modiwl.. Ceir rhagor o wybodaeth am polisi'r Brifysgol ar Ailsefyll ac Ail-gymryd ar:
- https://www.brookes.ac.uk/students/your-studies/resits-and-retakes/

Ar ôl cwblhau'r marcio, cewch eich hysbysu o'r darpar radd ar gyfer pob modiwl ar yr amod bod hyn yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Arholiadau. Felly gallai'r canlyniadau cychwynnol gael eu newid.

4.3.1. Tegwch wrth Asesu

Mae prosesau asesu y Brifysgol yn sicrhau bod yr asesiad yn drwyadl, o safon priodol ac yn deg: https://www.brookes.ac.uk/regulations/your-study/fairness-in-assessment.

Mae rôl y safonwr mewnol a'r Arholwr Allanol yn allweddol yn hyn o beth, sef sicrhau bod y safonau a ddefnyddir i asesu myfyrwyr yn gymaradwy â phrifysgolion eraill:

- Mae pob asesiad yn ysgrifenedig fel y gall myfyrwyr ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu'r modiwl a'r holl raglen, a dewiswyd yr ystod, y math ac amseru'r asesiad yn ofalus i alluogi myfyrwyr i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol ac adfyfyriol.
- Gosodir y tasgau a'r cwestiynau gan Arweinydd y Modiwl, eu cymedroli'n fewnol (wedi'u gwirio gan aelod arall o'r staff) a'u hanfon at yr Arholwr Allanol er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer asesu canlyniadau dysgu'r modiwl a bod y cyfarwyddiadau a'r meini prawf marcio yn glir.
- Caiff gwaith y myfyrwyr ei farcio, yna, cymedrolir sampl o asesiadau gan gymedrolwr mewnol er mwyn sicrhau bod safonau marcio yn gyfartal ar gyfer yr holl fyfyrwyr. Yn dilyn cymedroli mewnol adolygir sampl o waith gan ein Harholwr Allanol fel y gall fonitro safonau a sicrhau bod y marcio yn gyson.
- Mae'r Brifysgol yn mabwysiadu polisi o farcio'n ddienw lle bynnag posibl. Fodd bynnag, yn y rhaglen hon, oherwydd natur yr asesiadau crynodol ni fydd yn bosibl i farcio'ch aseiniadau yn ddienw.
- Mae'r Pwyllgor Arholi yn cynnwys Cyfarwyddwr yr IPC, Arweinwyr Modiwlau, tiwtoriaid a'r Arholwr Allanol. Mae'n cwrdd yn gyson i gymeradwyo canlyniadau aseiniad. Rôl y Pwyllgor Arholi ydy cymeradwyo'n derfynol y marciau unigol ar bob modiwl ac i argymell dyfarnu'r cymwysterau terfynol. Ar ôl cwblhau'r marcio, felly, nodir gradd dros dro ar gyfer pob modiwl unigol a'ch hysbysu chi beth ydyn nhw, gyda'r amod bod raid i'r Pwyllgor Arholi ei gymeradwyo. Felly gallai canlyniadau cychwynnol gael eu newid.
- Ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd, mae'r Arholwr Allanol yn cyflwyno adroddiadau i'r Brifysgol a gyhoeddir ar Safle Moodle y Rhaglen. Mae enw'r Arholwr Allanol a'r sefydliad lle caiff ei g/chyflogi yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ond diben hyn ydy sicrhau tryloywder ac nid ar gyfer cyfathrebu'n uniongyrchol â'r Arholwr Allanol

Caiff sampl o asesiadau eu safoni gan safonwr mewnol er mwyn sicrhau bod yr un safonau yn cael eu defnyddio ar gyfer pob myfyriwr. Yn dilyn safoni mewnol, adolygir sampl o waith gan ein Arholwr Allanol, a benodwyd o du allan i'r sefydliad, er mwyn sicrhau bod y safonau yn gymaradwy â rhai mewn sefydliadau eraill: https://www.brookes.ac.uk/regulations/your-study/fairness-in-assessment.

Ar ôl cwblhau'r marcio, dyfernir gradd dros dro ar gyfer pob modiwl a chewch eich hysbysu ar y ddealltwriaeth ei bod yn amodol ar gadarnhad a chymeradwyaeth y Pwyllgor Arholi. Felly gallai canlyniadau cychwynnol gael eu newid.

4.4. Amgylchiadau eithriadol

Dylech gyflwyno'ch aseiniad erbyn y dyddiad cau a bennwyd. Ond, mae'r Brifysgol yn sylweddoli, ar brydiau y gallai anawsterau personol dwys effeithio arnoch chi a hynny'n effeithio ar eich gallu i ymglymu â'ch astudiaethau ac effeithio'n negyddol ar eich perfformiad mewn asesiadau.

Yn gyffredinol, ni ystyrir bod problemau cysylltiedig â TG yn sail dilys ar gyfer amgylchiadau eithriadol. Y rheswm dros hyn ydy bod disgwyl i fyfyrwyr gadw copi wrth gefn o'u gwaith.

Os ydych chi'n wynebu amgylchiadau eithriadol tu hwnt i'ch rheolaeth, sy'n effeithio ar eich gallu i astudio neu'n effeithio ar eich perfformiad mewn asesiad, gallwch wneud cais am estyniad neu gyfle i ail-sefyll asesiad.

Ceir gwybodaeth am y gwahanol fathau o amgylchiadau eithriadol a'r gweithdrefnau i'w dilyn i wneud cai ar wefan ein myfyrwyr: https://www.brookes.ac.uk/students/your-studies/exceptional-circumstances/.

Gwnewch eich cais cyn gynted â phosibl. Peidiwch ag aros i ddedlein y dyddiad cau basio.

5. Yr hyn a ddisgwyliwn gennych

5.1. Polisi Prifysgol Oxford Brookes ar Ymrwymiadau a Rennir

Gofynnwn i fyfyrwyr wneud y canlynol:

- Mynychu pob sesiwn a amserlennir – mae'r cysylltiad rhwng presenoldeb a llwyddiant academaidd yn hysbys.
- Ymwneud â'r holl gweithgareddau a'r cyfleoedd o ran addysgu, dysgu ac asesu.
- Os ydyn ni'n gweithio ar-lein, rydyn ni'n disgwyl i fyfyrwyr gadw eu camerâu ymlaen a chyfrannu at drafodaethau ac ymarferion grŵp, yn union fel pe byddem yn gweithio gyda'n gilydd wyneb yn wyneb.
- Ysgwyddo cyfrifoldeb dros drefnu'ch amser i gwrdd â dedleins ac ymrwymiadau dysgu eraill.
- Mynychu sesiynau a amserlennir gyda'ch Ymgynghorydd Academaidd yn ôl y gofyn.
- Dod o hyd i gydbwysedd cynaliadwy rhwng eich gwaith Prifysgol a'ch ymrwymiadau gwaith.
- Rhyngweithio i ymgysylltu â ffynonellau cymorth myfyrwyr e.e .eich Ymgynghorydd Academaidd a'ch Gweinyddwr, o ran pob agwedd o'ch bywyd yn y Brifysgol a cheisio cyngor yn ddiymdroi.
- Ceisio cyngor ac adborth gan Arweinwyr eich Modiwl neu eich Ymgynghorydd Academaidd yn ddiymdroi, drwy gydol y flwyddyn academaidd, gan wneud defnydd da o oriau swyddogol swyddfa'r staff academaidd.
- Cefnogwch eich Cynrychiolwyr Myfyrwyr a chymerwch ran mewn systemau fydd yn arwain at welliannau yn ansawdd y dysgu a'r addysgu.

Er mwyn gwella'r profiad dysgu i chi, bydd staff Prifysgol Oxford Brookes yn gwneud y canlynol:

- Cyhoeddi llawlyfrau'r rhaglen ar Moodle ar ddechrau cwrs.

- Lle bo'n bosibl, darparu fersiynau cychwynnol o restrau darllen ar gyfer pob modiwl i fyfyrwyr drwy ddolen gyswllt â Talis Aspire a hynny ar ddechrau'r cwrs. Mae rhestrau darllen yn hyblyg ac yn cael eu diweddaru yn ystod y modiwl.
- Lle bo'n bosibl, sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn graddau ac adborth ar waith a asesir o fewn **pymtheg diwrnod gwaith**. Pan na fydd hyn yn bosibl, dylai arweinwyr modiwl hysbysu'r myfyrwyr o'r llinell amser ddisgwyliedig.
- Darllen archwiliadau o wybodaeth y modiwl bob semester er mwyn sicrhau cywirdeb y wybodaeth asesu a gofnodir.
- Gan weithio gydag eraill, llunio a chyhoeddi siediwl asesu rhaglenni ar dudalennau agoriadol Moodle.
- Creu a chynnal tudalennau Moodle modiwl ymhob rhaglen gan ddefnyddio cynllun cyson gyda gwybodaeth allweddol megis briffiau aseiniad, rhestrau darllen, Talis Aspire, cynnwys wythnosol a dedleins a gedwir hefyd yn yr un lleoliad.
- Cynnal gwerthusiadau ganol modiwl a rhoi'r materion ar waith fel bo'n briodol. Cynnig adborth i fyfyrwyr am y camau i'w cymryd ar y pwynt priodol nesaf.
- Cyfleu canlyniadau cyfraniadau Cynrychiolydd Myfyrwyr i gyfarfodydd pwyllgor pwnc mewn modd addas ac effeithiol e.e. drwy anfon e-bost i'r garfan, drwy dudalen agoriadol Moodle ac yn ddelfrydol, o fewn dwy wythnos i'r cyfarfod.

5.2. Arferion Academaidd

Fel myfyriwr yn y Brifysgol, disgwyliwn i chi ymddwyn mewn modd proffesiynol gydag agwedd dda at ddysgu a'r symbyliad i ddysgu annibynnol gyda darllen a gweithgareddau tu allan i'r oriau a addysgir. Mae'ch modiwlau wedi cael eu dadelfennu'n wahanol oriau dysgu a gelwir nifer o oriau o fewn y modiwl hwn yn Astudiaeth Annibynnol ac i'w defnyddio i gwblhau prosiect seiliedig ar waith. Mae hyn yn golygu mai'ch cyfrifoldeb chi fydd cwblhau'r gwaith a ddisgwylir rhwng yr adegau a addysgir.

Mae help ar gael i chi os ydych yn cael trafferth i reoli'ch amser. Gall eich Ymgynghorydd Academaidd eich cyfeirio at ein tîm Cymorth i Fyfyrwyr neu i Ganolfan Datblygiad Academaidd. Mae hefyd dudalennau ar-lein ar gael gyda phopeth sydd ei angen i chi ei wybod drwy dudalennau'r wefan.

Rhaid i chi arddangos eich integriti academaidd yn eich astudiaethau ac yn y gwaith a gynhyrchwch. Mae amrediad o gymorth a chyfarwyddyd ar gael i'ch helpu i wneud hyn, felly, sicrhewch eich bod yn ymwybodol o'r disgwyliadau cyn cychwyn ar asesiad. Ystyrir bod llên ladrad a ffurfiau eraill o dwyll yn faterion difrifol iawn gan fod potensial i hyn danseilio gwerth dyfarniadau'r Brifysgol

Adnodd ar y we ydy **Turnitin** sy'n cynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu arferion academaidd da wrth baratoi gwaith ysgrifenedig ar gyfer asesiad. Mae'r adnodd matsio testun hwn yn caniatáu i staff academaidd wirio gwaith myfyrwyr o ran ddefnyddio ffynonellau yn amhriodol neu am bosibilrwydd bod llên-ladrata wedi digwydd, drwy ei gymharu â'r basau data a gaiff eu diweddaru'n barhaus (gan gynnwys tudalennau'r we a gwaith myfyrwyr). Mae Turnitin yn cynhyrchu 'Adroddiad Gwreiddioldeb' ar gyfer pob darn o waith a gyflwynwyd, adroddiad sy'n nodi pob peth sy'n paru yn aseiniad y myfyriwr â ffynonellau seiliedig ar ei fas data, ac felly yn gallu

cynnig cyfle i'r staff academaidd helpu myfyrwyr i ddatblygu dulliau dyfynnu cywir yn ogystal â diogelu integriti' academaidd myfyrwyr. Gellir defnyddio Turnitin fel rhan o ymchwiliad i achos honedig o gamymddygiad academaidd ond ei nod pennaf ydy cynorthwyo datblygiad academaidd myfyrwyr a gwella arferion academaidd da. Rhaid i chi gyflwyno testun eich aseiniad i Turnitin ac i gofnodi eich sgôr gwreiddioldeb Turnitin ar dempled yr aseiniad. Mae polisi'r Brifysgol ar Turnitin ar gael yma ar https://www.brookes.ac.uk/students/your-studies/turnitin/.

Mewn achosion lle mae tiwtor yn amau llên-ladrad mewn gwaith myfyriwr a phenderfynu ei gyfeirio at y Tîm Ymchwiliad a Datrysiad Myfyrwyr, rhaid i'r tiwtor lawrlwytho copi o adroddiad gwreiddioldeb Turnitin y myfyriwr a'i anfon yn uniongyrchol at y myfyriwr. Gwneir hyn i helpu'r myfyriwr baratoi os bydd rhaid cynnal ymchwiliad.

Felly, bydd y Tîm Ymchwiliad a Datrysiad Myfyrwyr yn ymchwilio i bob honiad o dwyll, drwy weithdrefnau Ymddygiad Academaidd / Academic Conduct procedures. Gellir rhoi ystod o gosbau ar y rhai y cafwyd eu bod wedi torri'r rheoliadau gan gynnwys diarddel neu ddileu dyfarniad academaidd yn yr achosion mwyaf difrifol.

Os nad ydych yn orhyderus yng nghywirdeb eich Saesneg neu'ch Cymraeg ysgrifenedig, efallai y byddech am ofyn i rywun eich helpu drwy wirio'ch gwaith. Fodd bynnag, mae'n bwysig, wrth wneud hyn, na fyddwch yn camymddwyn yn academaidd a allai olygu camau disgyblu. Mae gan y Brifysgol ganllawiau ar brawf ddarllen / guidance about proofreading. Hefyd, os defnyddiwch wasanaeth prawf ddarllen neu wirio, mae'r Gyfadran Iechyd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn gofyn i chi ddatgan hynny ar flaen eich gwaith gan enwi'r unigolyn a wnaeth hyn i chi.

5.3. Deallusrwydd Artiffisial a'i ddefnydd yn yr asesiad hwn

Cydnabyddir bod y defnydd o adnoddau Deallusrwydd Artiffisial(AI) yn bresennol ymhob agwedd o'n bywydau - er enghraifft, testun rhagfynegol ar gyfer e-bost. Gallai adnoddau cynhyrchiol megis Copilot a Gemini o fudd i nifer o bobl ond mae deall eu cyfyngiadau, perygl o ragfarn a chyflwyno gwybodaeth anghywir yn sgil allweddol y mae angen i raddedigion ei ddatblygu. Mae'n bwysig i fyfyrwyr ddatblygu llythrennedd AI tra yn y brifysgol: gwybod sut i ddefnyddio a chymhwyso AI; i asesu allbwn AI yn gritigol; i ddeall a gwerthuso effaith AI; i fod yn ymwybodol o faterion moesegol, rhagfarn a chywirdeb; gwirio amodau a thelerau a sicrhau preifatrwydd data.

Fodd bynnag, dylech fod yn ofalus wrth ddefnyddio adnoddau o'r fath a dylech ddilyn cyfarwyddyd tiwtoriaid eich modiwl. Os ydych yn defnyddio AI, rhaid i chi gydnabod hynny mewn adran yn eich aseiniad i egluro'r adnodd AI a ddefnyddioch a'r modd y defnyddioch nhw (gweler *Oxford Brookes Acknowledgement of AI guidance*). Rhaid i bob myfyriwr a ddefnyddiodd AI ar gyfer eu haseiniad gwblhau cwrs '*Use of Artificial Intelligence'* sydd ar gael ar Moodle. Ar ôl ei gwblhau, lanlwythwch eich Tystysgrif Cwblhau fel atodiad yn nhempled eich aseiniad.

Mae hyn yn debyg i gyfeirnodi'ch ffynonellau yn eich rhestr gyfeirio. Yn y datganiad, mae angen i chi nodi pa adnoddau a ddefnyddioch a'r modd y defnyddioch yr adnoddau hynny yn eich aseiniad (er enghraifft, yr hyn ofynnoch chi i'r adnodd ei

wneud). Dylech hefyd wirio gydag Arweinydd eich Modiwl i sefydlu a allwch ddefnyddio adnoddau AI ar gyfer eich aseiniad gan fod yna ddefnydd priodol ac amhriodol o AI ar gyfer yr aseiniad hwn.

Ni chaniateir defnyddio adnodd heb ei gydnabod na defnydd twyllodrus o AI a gallai hyn arwain at archwiliad i ymddygiad academaidd. Am ganllawiau pellach, gwiriwch y ddolen gyswllt uchod i '*Acknowledgement of AI'*, trafodwch gyda'ch Ymgynghorydd Academaidd, tiwtoriaid eich modiwl a *darllenwch Oxford Brookes AI Guidance for Students* (adnodd a ddatblygwyd drwy CAD) a chwrs Moodle ar y Defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial.

5.4. Cyfrinachedd

Mae gofyn i IPC adrodd yn ôl i'w hasiantaeth gyflogi, a Gofal Cymdeithasol Cymru ar bresenoldeb myfyrwyr ar y rhaglen, eu cynnydd wrth gyflwyno aseiniadau a'r canlyniadau. Fodd bynnag, dim ond staff Prifysgol Oxford Brookes a'n Harholwr Allanol all gyrchu cynnwys gwaith asesedig ac ni fydd ar gael i eraill tu allan i'r gymuned hon ei ddarllen heb eich caniatâd. Bydd IPC yn annog myfyrwyr i ledaenu, drwy Gofal Cymdeithasol Cymru, grynodebau o brosiectau arloesol ac effeithiol yn seiliedig ar waith.

5.5. Polisi iaith

Bydd IPC yn sicrhau bod gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru o ran yr iaith Gymraeg yn cael eu diwallu wrth gyflenwi'r rhaglen hon. Bydd yr holl gyfarwyddiadau ysgrifenedig a'r deunydd ymuno ar gael yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Bydd cymorth academaidd unigol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydyn ni'n eich annog i gwblhau eich asesiadau yn y Gymraeg a bydd yr asesiadau ysgrifenedig yn cael eu marcio yn y Gymraeg yn hytrach na chael eu cyfieithu. Bydd cymorth academaidd a hyfforddiant ar gael i unigolion yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

6. Modiwl WFPC70011 Datblygu'n Arweinydd

Mae'r modiwl hwn yn ystyried rôl arweinydd yn y cyd-destun lleol a chenedlaethol o ran arwain sefydliad, ac ar draws ffiniau sefydliadol. Mae'n darparu adnoddau a dulliau o fynd ati i'ch galluogi i ddatblygu'ch galluedd arwain chi eich hun yn erbyn asesiad o'ch cryfderau a'ch gwendidau. Mae'r modiwl yn defnyddio amrediad o dechnegau addysgu a dysgu a chewch gyfle i:

- Gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp (e.e. seminarau) er mwyn rhannu gwybodaeth, profiad a sgiliau.
- Gwerthuso'r asesiad 360 gradd a llunio'ch cynllun datblygu personol eich hun.
- Cael sesiynau hyfforddi unigol a datblygiadol.
- Asesu gwaith dychmygol myfyrwyr neu waith blynyddoedd blaenorol myfyrwyr yn erbyn cynllun asesu ar gyfer asesiadau crynodol.
- Ysgrifennu aseiniad cysylltiedig â chynnwys y modiwl.

6.1. Canlyniadau dysgu'r modiwl

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus byddwch yn dangos y Priodweddau Graddedigion Brookes canlynol ar lefel ôl-radd:

Canlyniad Dysgu	Priodwedd Graddedigion
1. Dealltwriaeth gritigol/feirniadol o egwyddorion a damcaniaethau arweinyddiaeth strategol a rheolaeth a'u cymhwyso'n effeithiol yn yr amgylchedd gofal cymdeithasol er mwyn gwella a datblygu arferion sefydliadol.	Llythrennedd academaidd
2. Gwybodaeth fanwl drylwyr o'r dylanwadau cyd-destunol, yn cynnwys dealltwriaeth o'r sialensiau polisi ac arferion sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol a llesiant.	Llythrennedd academaidd
3. Persbectif critigol/beirniadol o hinsawdd y sefydliad a'i allu i newid a datblygu.	Llythrennedd academaidd
4. Y gallu i ystyried a gwerthuso cymhwysedd personol a chymryd cyfrifoldeb dros ddysgu personol a datblygiad proffesiynol parhaus.	Hunan-ymwybyddiaeth beirniadol a llythrennedd personol

6.2. Cynnwys y modiwl

Bydd cynnwys y modiwl yn delio â'r canlynol:

Rôl a nodweddion arweinyddiaeth strategol ym maes gofal cymdeithasol: rhagarweiniad i fodelau damcaniaethol strategaeth ac arweinyddiaeth a'u cymhwysiad i faes gofal cymdeithasol a chyd-destun y sector cyhoeddus ehangach; ystyried nodweddion arferion da arweinyddiaeth strategol; asesiad o'ch sgiliau arweinyddiaeth a rheoli cyfredol.

Deall effaith cyd-destun polisi lleol a chenedlaethol ar eich rôl: ystyried deddfwriaeth a phrif yrwyr cenedlaethol a lleol, gyda'r effaith ar eich sefydliad a sefydliadau partner; sefydlu gyrwyr polisi sy'n effeithio ar eich rôl a'ch timoedd; asesiad o'r prif feysydd sydd angen eu datblygu.

Sut i ddylanwadu ar eraill a chydweithio'n effeithio ar draws ffiniau: ystyried hinsawdd ac ymddygiad sefydliadol sy'n cynorthwyo cydweithio; nodi'r dulliau allweddol i ddylanwadu a llywio fel arweinydd p'un ai o fewn sefydliad neu ar draws ffiniau sefydliadol.

6.3. Nodi'r oriau dysgu

Gallwch ddisgwyl dreulio'r oriau canlynol ar y modiwl hwn :

- Sesiynau a addysgir- 14 awr
- Cyfarfodydd cymorth unigol - 4 awr
- Sesiynau hyfforddi unigol – 6 awr
- Astudiaeth annibynnol dan gyfarwyddyd - 66 awr
- Paratoi ar gyfer ac ymgymryd ag aseiniad crynodol – 110 awr

Fel y gwelwch yn yr oriau dysgu a nodir uchod, disgwylir i fyfyrwyr gwblhau dysgu ac ymchwil ychwanegol ac annibynnol i lywio eu dysgu, i gyfrannu at ddiwrnodau hyfforddi a chwblhau'r aseiniad. Cyfrifoldeb pob un myfyriwr ydy sicrhau eu bod yn cwblhau'r gwaith a'r ymchwil a ddisgwylir rhwng pob diwrnod hyfforddi a'r sesiynau cymorth.

6.4. Tasg asesu modiwl

Tasg asesu crynodol modiwl ydy cynhyrchu aseiniad ysgrifenedig:

Cyflwyno aseiniad ysgrifenedig rhwng 2,500 a 3,500 o eiriau sydd, yng nghyd-destun dylanwadau allweddol cenedlaethol a lleol, yn darparu dadansoddiad o'ch blaenoriaethau datblygu arweinyddiaeth sy'n berthnasol i'ch sefydliad ac / neu i bartneriaethau ehangach. Bydd disgwyl i chi gyfeirio at ddogfennau lleol a chenedlaethol allweddol a llenyddiaeth arall berthnasol i ddangos eich darllen a'ch dealltwriaeth o egwyddorion a theori arweinyddiaeth o fewn amgylchedd gofal cymdeithasol.

Mae hyd eich aseiniad wedi'i gyfyngu i nifer benodol o eiriau er mwyn cyfrannu at ddatblygu sgiliau ysgrifennu ac i sicrhau bod gwaith pawb yn cael ei asesu'n deg. Felly rydyn ni'n gofyn i chwblhau'ch aseiniad o fewn y nifer o eiriau a nodir ym mriff yr aseiniad: rhwng 2,500 a 3,500 o eiriau. Does dim gwyro ac ni cheir mynd tu hwnt i'r uchafswm geiriau. Os ydych mewn unrhyw amheuaeth, dylech drafod hyn gyda'ch Tiwtor Arweiniol cyn cyflwyno'ch gwaith. Dylech nodi'ch cyfrif geiriau yn glir ar dempled eich aseiniad.

Mae'r cyfrif geiriau yn cyfeirio at brif gorff eich aseiniad a dydy e ddim yn cynnwys teitl yr aseiniad, y rhestr gyfeirio nac unrhyw atodiad. Mae'r cyfrif geiriau yn cynnwys penawdau ac is-benawdau, troednodiadau, tablau a dyfyniadau yn y testun ond nid y diagramau. Ni chaiff yr atodiadau eu hunain eu marcio. Fodd bynnag, bydd unrhyw gam-ddefnydd o atodiadau yn cael ei ystyried wrth ddyfarnu'r marc terfynol.

Mae templed aseiniad, sy'n rhoi cyfarwyddyd am feini prawf ar gyfer asesu, ar gael i'w lawrlwytho o Rith Amgylchedd Ddysgu'r Brifysgol (Moodle) – 'VLE'. Mae gofyn i chi gyflwyno'ch gwaith yn electronig, ar dempled yr aseiniad, drwy Rith Amgylchedd Ddysgu'r Brifysgol (Moodle). Rydyn ni hefyd yn disgwyl i chi hefyd gyflwyno testun yr aseiniad i Turnitin ac i gofnodi eich sgôr gwreiddioldeb Turnitin ar dempled yr aseiniad. Adnodd ar y we ydy Turnitin sy'n cynorthwyo datblygiad o arfer academaidd da wrth baratoi gwaith ysgrifenedig i'w asesu. Mae'r adnodd matsio testun hwn yn galluogi staff i wirio nad yw aseiniadau wedi cam-ddefnyddio ffynonellau neu i ddatgelu llên-ladrad posibl drwy gymharu'r gwaith â basau data sy'n cael eu diweddaru'n gyson (yn cynnwys tudalennau gwefannau a gwaith myfyrwyr eraill).

Byddwch yn derbyn adborth ar dempled eich aseiniad a fydd yn dangos pa mor dda rydych wedi gwneud a bydd yn crynhoi cryfderau a gwendidau eich gwaith.

6.5. Hanes dilysu modiwl

Cymeradwywyd y modiwl hwn gyntaf ym Mai 2016 a'i ail-gymeradwyo yn 2026.

7. Modiwl WFPC7012 Llunio Gofal Cymdeithasol

Mae'r modiwl hwn yn rhoi sylfaen gwybodaeth gadarn a sylfaen mewn tair elfen allweddol o system gofal cymdeithasol trawsnewidiol: comisiynu strategol, gweithio integredig drwy gydweithio ac ymglymiad dinasyddion. Bydd yn cynnig y cyfle i ymchwilio arferion arloesol yn y meysydd hyn ac ystyried yr achos dros newid yn lleol. Mae'r modiwl yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau addysgu a dysgu, cewch gyfle i wneud y canlynol:

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp (e.e. seminarau ac astudiaethau achos)) er mwyn rhannu gwybodaeth, profiad a sgiliau.
- Cyfrannu at setiau dysgu gweithredol i ddatblygu ymwybyddiaeth o agweddau o ymarfer adfyfyriol
- Gwerthuso'r hunan-asesiad o anghenion dysgu a nodir ym modiwl WFPC7011 gan ystyried eich datblygiad proffesiynol.
- Cael sesiynau hyfforddi unigol a datblygiadol.
- Cynnal ymchwil, yn unigol ac yn rhan o grŵp, i ymchwilio i ymarfer ym maes comisiynu strategol, gweithio integredig neu ymglymiad dinesydd a datblygu achos dros ei weithredu'n lleol.
- Cyflwyno astudiaeth achos sy'n ystyried materion yn gysylltiedig ac ymchwil a gwneud achos dros newid.
- Ysgrifennu aseiniad cysylltiedig â'r astudiaeth achos.

7.1. Canlyniad dysgu modiwl

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus byddwch yn dangos y Priodweddau Graddedigion Brookes canlynol ar lefel ôl-radd:

Canlyniadau dysgu	Priodwedd Graddedigion
1. Gallu caffael a dadansoddi data a gwybodaeth, i werthuso eu perthnasedd a'u dilysrwydd i drefnu ystod o wybodaeth yng nghyd-destun sefyllfaoedd newydd.	Llythrennedd ymchwil
2. Dealltwriaeth gysyniadol sy'n eich galluogi i werthuso trylwyredd a dilysrwydd ymchwil cyhoeddedig ac asesu ei berthnasedd i sefyllfaoedd newydd; i ddefnyddio ymchwil sydd eisoes yn bodoli er mwyn nodi dulliau	Llythrennedd ymchwil

Canlyniadau dysgu	Priodwedd Graddedigion
newydd neu ddiwygiedig o ddelio ag arferion; ac i werthuso problemau yn gritigol a llunio argymhellion sy'n cyfrannau at wneud penderfyniadau strategol.	
3. Gallu cynnal ymchwil i faterion busnes a rheoli sy'n gofyn i chi ymgyfarwyddo â lefel briodol o ddata busnes, ffynonellau adnoddau a methodolegau addas ac i hyn fod yn sail i'r broses ddysgu yn gyffredinol.	Llythrennedd ymchwil
4. Gallu cyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio ystod o gyfryngau (er enghraifft, ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy gyfryngau digidol)	Llythrennedd digidol a gwybodaeth
5. Y defnydd o dechnoleg addas i chwilio am wybodaeth berthnasol i ofal cymdeithasol a gwerthuso'r wybodaeth honno yn gritigol; ymglymu â gweithgareddau dysgu ar-lein; ac fel arall defnyddio technoleg gwybodaeth i gynorthwyo a galluogi rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol.	Llythrennedd digidol a gwybodaeth

7.2. Cynnwys modiwl

Bydd cynnwys y modiwl hwn yn cynnwys y canlynol:

Llunio'r farchnad i gyflenwi gwasanaethau a drawsnewidiwyd ar gyfer ein dinasyddion: nodi gyrwyr polisi cenedlaethol yn enwedig o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ar gyfer comisiynu strategol; deall y farchnad leol ar gyfer gwasanaethau gofal a llesiant a dulliau o fynd ati i'w lunio'n effeithiol; hunan-asesiad o'r berthynas gyfredol gyda'r farchnad yn lleol mewn meysydd allweddol.

Yr hyn sy'n cyfrif wrth i iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio fel modd o gyflenwi canlyniadau gwell: ystyried gyrwyr polisi cenedlaethol a lleol ar gyfer cydweithio a/neu integreiddio ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol; nodi galluogwyr allweddol a rhwystrau er mwyn cael cydweithio effeithiol gan gynnwys arweinyddiaeth, gweledigaeth a iaith a rennir, a ffocysu ar ganlyniadau; hunan-asesu'r sefyllfa bresennol ar eich cyfer chi a'ch timoedd.

Ymglymu'n bositif gyda'n cymunedau lleol: ystyried y gyrwyr cenedlaethol a lleol ar gyfer gweithio gyda dinasyddion lleol a chymunedau lleol; sefydlu gwahanol lefelau o gyfranogiad a rhesymau dros ddefnyddio dulliau gwahanol o fynd ati; Hunan-asesu'r sefyllfa bresennol ar eich cyfer chi a'ch timoedd.

7.3. Nodi'r oriau dysgu

Gallwch ddisgwyl dreulio'r oriau canlynol ar y modiwl hwn:

- Sesiynau a addysgir - 21 awr

- Cyfarfodydd cymorth unigol - 4 awr
- Paratoi unigol – 15 awr
- Ymchwil cyfeiriedig ar gyfer grŵp - 40 awr
- Paratoi ar gyfer aseiniad crynodol ac ymgymryd ag e – 120 awr

7.4. Modiwl asesu tasg

Y dasg grynodol ydy:

Ymchwilio a chyflwyno astudiaeth achos sy'n disgrifio enghraifft o arfer arloesol mewn un o'r tair thema, gan gynnwys gwneud achos dros ei ddatblygu'n ehangach. Bydd y cyflwyniad yn cael ei ategu gan ddisgrifiad ysgrifenedig o'r astudiaeth achos a fydd yn cynnwys gwerthusiad o ba mor berthnasol ydyw i'w fabwysiadu neu ei addasu'n lleol gan ystyried polisi lleol penodol a chyd-destun yr arfer. Bydd yr astudiaeth achos ysgrifenedig hefyd yn ystyried y broses o gynnal ymchwil a datblygu'r achos dros ei roi ar waith, gan gynnwys unrhyw wersi a ddysgwyd. Disgwylir gwybodaeth ategol sy'n rhoi tystiolaeth o'r gweithgareddau ymchwil gan gynnwys gwerthusiad o ddarpar fuddion y dull arloesol o fynd ati. Bydd disgwyl i gyfeiriadau fod yn cyfeirio at ddogfennau lleol neu genedlaethol neu lenyddiaeth academaidd perthnasol er mwyn dangos eich bod wedi darllen a/neu ymchwilio yn ehangach.

Disgwylir, oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol iawn, y bydd pob myfyriwr yn rhoi cyflwyniad ar yr astudiaeth achos.

Mae hyd eich aseiniad wedi'i gyfyngu i nifer penodol o eiriau er mwyn cyfrannu at ddatblygu sgiliau ysgrifennu ac i sicrhau bod gwaith pawb yn cael ei asesu'n deg. Felly rydyn ni'n gofyn i chwblhau'ch aseiniad o fewn y nifer o eiriau a nodir ym mriff yr aseiniad: rhwng 2,500 a 3,500 o eiriau. Does dim gwyro ac ni cheir mynd tu hwnt i'r uchafswm geiriau. Os ydych mewn unrhyw amheuaeth, dylech drafod hyn gyda'ch Tiwtor Arweiniol cyn cyflwyno'ch gwaith. Dylech nodi'ch cyfrif geiriau yn glir ar dempled eich aseiniad.

Mae'r cyfrif geiriau yn cyfeirio at brif gorff eich aseiniad a dydy e ddim yn cynnwys teitl yr aseiniad, rhestr gyfeirio nac unrhyw atodiad. Mae'r cyfrif geiriau yn cynnwys penawdau ac is-benawdau, troednodiadau, tablau a dyfyniadau yn y testun ond nid y diagramau.

Ni chaiff yr atodiadau eu hunain eu marcio. Fodd bynnag, bydd unrhyw gam-ddefnydd o atodiadau yn cael ei ystyried wrth ddyfarnu'r marc terfynol.

Mae templed yr aseiniad, sy'n rhoi cyfarwyddyd am feini prawf ar gyfer asesu, ar gael i'w lawrlwytho o Rith-Amgylchedd Ddysgu'r Brifysgol (Moodle). Rydym yn gofyn i chi gyflwyno'ch gwaith yn electronig ar y templed aseiniad, drwy Rith Amgylchedd Dysgu y Brifysgol (Moodle). Cewch adborth ar dempled eich aseiniad a fydd yn nodi pa mor dda yr ydych wedi gwneud a chrynhoi cryfderau a gwendidau'ch gwaith.

7.5. Hanes dilysu'r modiwl

Cymeradwywyd y modiwl hwn gyntaf ym mis Mai 2016 a'i ail-gymeradwyo yn 2026

8. Modiwl WFPC7013 Cyflenwi Canlyniadau Gwell

Mae'r modiwl hwn yn ystyried gweithredu prosiectau strategol mawr neu brosiectau gweithredol mewn amgylchedd cyfnewidiol a'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at gyflenwi'n llwyddiannus: arweinyddiaeth strategol effeithiol, cyflenwi newid yn yr hinsawdd, rheoli perfformiad cadarn. Mae'r modiwl yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau addysgu a dysgu, cewch gyfle i:

- Gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp (e.e. seminarau ac astudiaethau achos) er mwyn rhannu gwybodaeth, profiad a sgiliau.
- Cyfrannu at setiau dysgu gweithredol i ddatblygu ymwybyddiaeth o agweddau o arferion adfyfyriol.
- Asesu gwaith dychmygol myfyrwyr neu waith blynyddoedd blaenorol myfyrwyr yn erbyn cynllun asesu ar gyfer asesiadau crynodol.
- Ymgymryd â phrosiect yn y gweithle i weithredu prosiect strategol mawr neu brosiect gweithredol yng nghyd-destun amgylchedd trawsnewidiol.
- Cyflwyno braslun o brosiect ffurfiannol ond gorfodol a chynllun prosiect ar gyfer eich darpar brosiect a fyddwch yn ei defnyddio ar gyfer yr asesiad crynodol.

8.1. Canlyniadau dysgu modiwl

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, byddwch yn arddangos y priodweddau canlynol ar lefel ôl-radd:

Canlyniadau Dysgu	Priodweddau Graddedigion
1. Hunan-gyfeirio a'r gallu i weithredu'n annibynnol i gynllunio a rhoi prosiectau strategol ar waith; bod yn rhagweithiol yn yr angen am newid a meddu ar y gallu i reoli newid.	Hunan-ymwybyddiaeth feirniadol a llythrennedd personol
2. Yr hunan-hyder i reoli eraill, i ddylanwadu ar eraill gan gynnwys arweinwyr a gweithio ar draws y sector cyhoeddus ac i weithredu'n effeithiol mewn tîm ac mewn rôl arweinydd fel bo'n briodol i sefyllfa benodol.	Hunan-ymwybyddiaeth feirniadol a llythrennedd personol
3. Ymwybyddiaeth feirniadol o gymhlethdod gwahanol safbwyntiau, diwylliannau a gwerthoedd mewn amgylchedd cyfnewidiol.	Dinasyddiaeth weithredol
4. Y gallu i reoli timoedd sy'n cyflenwi canlyniadau da ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yng ngoleuni persbectifau lleol a chenedlaethol, economaidd, gwleidyddol a diwylliannol a gwneud hynny yn effeithiol.	Dinasyddiaeth weithredol

8.2. Cynnwys modiwl

Bydd cynnwys y modiwl yn delio â'r canlynol:

Arwain a chynorthwyo datblygiad a newid: ystyried rôl arweinyddiaeth strategol ac arddulliau ym maes datblygu a chyflenwi prosiect; nodi galluogwyr a blocwyr i reoli newid yn effeithiol; hunan-asesu priodweddau personol fel arweinydd yn cynorthwyo newid.

Gweithredu newid yn yr hinsawdd mewn amgylchedd sy'n trawsnewid: ystyried yr hyn sy'n creu hinsawdd ym maes gofal cymdeithasol ac amgylcheddau eraill y sector cyhoeddus; nodi ffactorau sy'n llesteirio newid yn yr hinsawdd a lefel sefydliadol, tîm ac unigolyn; nodi a mynegi'r hinsawdd sydd ei angen yn y cyd-destun gwleidyddol cenedlaethol a lleol; datblygu strategaethau ar gyfer gweithredu newid yn yr hinsawdd/diwylliant; hunan-asesu'r hinsawdd lleol a'r parodrwydd i newid.

Gwella a rheoli perfformiad o fewn timoedd, ar draws ffiniau sefydliadol a gydag ystod o ran-ddeiliaid: ystyried y cyd-destun cenedlaethol ar gyfer rheoli perfformiad gan gynnwys Canlyniadau Cenedlaethol a Fframweithiau Perfformiad; yn darparu trosolwg o fframweithiau perfformiad mewn sectorau eraill, yn enwedig maes iechyd; nodi nodweddion monitro a rheoli perfformiad effeithiol; hunan-asesu rheolaeth perfformiad lleol ar draws sefydliadau.

8.3. Nodi'r oriau dysgu

Gallwch ddisgwyl treulio'r oriau canlynol ar y modiwl hwn:

- Sesiynau a addysgir - 14 awr
- Cyfarfodydd cymorth unigol neu grwpiau bach - 4 awr
- Paratoi unigol – 8 awr
- Hunan-astudiaeth cyfeiriedig - 74 awr
- Paratoi ar gyfer aseiniad crynodol ac ymgymryd ag e – 100 awr

8.4. Asesiad y modiwl

Tasg asesiad crynodol y modiwl ydy cyflwyno aseiniad ysgrifenedig rhwng 3,000 a 4,000 o eiriau sy'n disgrifio ac yn adlewyrchu prosiect mawr neu brosiect gweithredol yr ydych wedi'i arwain neu ei reoli yn ystod cwrs y rhaglen. Rhaid datgan rhesymeg y prosiect yn glir yng nghyd-destun gyrwyr polisi a sialensiau lleol a rhaid cynnig tystiolaeth o'r hyn sy'n effeithiol i gyflenwi canlyniadau i ddinasyddion er mwyn dangos sut mae'r dysgu yn cael ei gymhwyso. Rhaid bod y prosiect wedi cael ei dderbyn gan noddwr eich rhaglen ei fod yn briodol i anghenion eich sefydliad. Disgwylir gwybodaeth ategol a fydd yn cynnig tystiolaeth o weithgareddau'r prosiect, yn cynnwys datganiad arsylwi gan noddwr eich rhaglen. Disgwylir cyfeiriadau at ddogfennau lleol a chenedlaethol er mwyn dangos eich bod wedi darllen a/neu ymchwilio'n ehangach.

Mae hyd eich aseiniad wedi'i gyfyngu i nifer penodol o eiriau er mwyn cyfrannu at ddatblygu sgiliau ysgrifennu ac i sicrhau bod gwaith pawb yn cael ei asesu'n deg. Felly rydyn ni'n gofyn i chwblhau'ch aseiniad o fewn y nifer o eiriau a nodir ym mriff yr aseiniad: rhwng 3,000 a 4000 o eiriau. Does dim gwyro ac ni cheir mynd tu hwnt i'r uchafswm geiriau. Os ydych mewn unrhyw amheuaeth, dylech drafod hyn gyda'ch Tiwtor Arweiniol cyn cyflwyno'ch gwaith. Dylech nodi'ch cyfrif geiriau terfynol yn glir ar dempled eich aseiniad.

Mae'r cyfrif geiriau yn cyfeirio at brif gorff eich aseiniad a dydy e ddim yn cynnwys teitl yr aseiniad, rhestr gyfeirio nac unrhyw atodiad. Mae'r cyfrif geiriau yn cynnwys penawdau ac is-benawdau, troednodiadau, tablau a dyfyniadau yn y testun ond nid y diagramau. Ni chaiff yr atodiadau eu hunain eu marcio. Fodd bynnag, bydd unrhyw gam-ddefnydd o atodiadau yn cael ei ystyried wrth ddyfarnu'r marc terfynol.

Bydd disgwyl i chi gyflwyno braslun o brosiect a chynllun prosiect i Rith Amgylchedd Ddysgu'r Brifysgol (Moodle) cyn dyddiad cyflwyno'r asesiad crynodol.

Mae templed yr aseiniad, sy'n rhoi cyfarwyddyd am feini prawf ar gyfer asesu, ar gael i'w lawrlwytho o Rith-Amgylchedd Ddysgu'r Brifysgol (Moodle). Rydym yn gofyn i chi gyflwyno'ch gwaith yn electronig ar y templed aseiniad, drwy Rith Amgylchedd Dysgu y Brifysgol (Moodle). Cewch adborth ar dempled eich aseiniad a fydd yn nodi pa mor dda yr ydych wedi gwneud a chrynhoi cryfderau a gwendidau'ch gwaith.

8.5. Hanes Dilysu

Cymeradwywyd y modiwl hwn gyntaf ym mis Mai 2016.

9. Eich llais

Mae gwerthuso profiad myfyrwyr yn fanwl yn elfen bwysig a pharhaus o'r rhaglen. Felly, caiff y rhaglen ei monitro'n gyson i gofnodi eich barn. Defnyddir ffurflen werthuso ffurfiol yn ystod pob modiwl yn ogystal â chyfweliadau anffurfiol parhaus i drafod cynnwys modiwl, deunyddiau, ymarferion, gweinyddiaeth, lleoliad neu unrhyw fater arall. Mae gwerthuso modiwl yn gyfle i chi gynnig sylwadau ar agweddau cadarnhaol a negyddol y modiwl, perfformiad y staff addysgu a chynllun y modiwl. Mae gwerthuso yn ein helpu i wirio'r profiad addysgu a'r dysgu ac i wella ansawdd y rhaglen. Trafodir canlyniadau'r gwerthusiadau hyn fel rhan o'r Pwyllgor Pwnc.

Mae rheolaeth y rhaglen yn gyfrifoldeb tîm rheoli'r rhaglen a arweinir gan Gyfarwyddwr Cwrs IPC. Bydd y tîm yn cynnal cyfarfodydd mewnol rheolaidd i drafod unrhyw newidiadau brys a rheolaeth y rhaglen, a'r Pwyllgor Arholiadau sy'n gyfrifol am gynnal safon academaidd y rhaglen. Rydyn ni'n derbyn adroddiad blynyddol gan ein Harholwr Allanol sy'n samplo gwaith myfyrwyr ac yn mynychu cyfarfodydd ein Pwyllgor Arholiadau. Cynhelir cyfarfod Adolygiad Blynyddol, a'i gadeirio gan Gyfarwyddwr Cwrs IPC gan ddod â deunyddiau'r cyfarfodydd hyn a deunyddiau gwerthuso ynghyd. Anfonir cofnodion y cyfarfod hwn at Bwyllgor Safonau a Gwelliant Academaidd y Gyfadran. Yn ogystal â phroses Adolygiad Blynyddol y Gyfadran,

bydd y Brifysgol yn cynnal Adolygiad Cyfnodol o'r rhaglen er mwyn asesu effeithiolrwydd y rhaglen i alluogi myfyrwyr i gyflawni'r dysgu a fwriadwyd.

Bydd y Cyfarwyddwr Cwrs IPC yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i Bwyllgor Rheoli Rhaglenni Cenedlaethol (NPMC). Mae aelodaeth NPMC yn cynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC), Penaethiaid Gwasanaethau, Rheolwyr Datblygu Gweithlu o fewn awdurdodau lleol a Gofal Cymdeithasol Cymru.

9.1. Cynrychiolaeth myfyrwyr

Rydyn ni'n annog myfyrwyr i gymryd rhan yn eu cwrs drwy system o Gynrychiolaeth Myfyrwyr. Bydd myfyrwyr sydd wedi cwblhau'r Dystysgrif hon yn ystod y 12 mis blaenorol yn cael eu gwahodd i grŵp ffocws blynyddol lle gallwch siarad â Chyfarwyddwr y Cwrs a chynnig eich mewnbwn i ddatblygiad parhaus y cwrs hwn. Bydd Arweinydd eich Modiwl yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi.

Bydd cyfle gennych hefyd i gyfrannu at sesiynau datblygu cyrsiau a gwerthusiadau gan 'Gofal Cymdeithasol Cymru'. Bydd Arweinydd eich Modiwl yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn hefyd.

9.2. Cwynion ac apeliadau

Ein gobaith ydy y bydd eich amser gyda ni yn un hapus a bydd eich rhaglen astudiaeth yn cwrdd â'ch disgwyliadau, ond rydyn i'n deall y bydd pethau weithiau yn mynd o'i le ac rydyn ni'n croesawu'r cyfle i'w cywiro. Os bydd agwedd o'n darpariaeth yn gostwng yn is na'r disgwyliadau, rhowch wybod i aelod o staff IPC. Os na allan nhw ddatrys y broblem drwy'r gweithdrefnau lleol hyn, mae gan y Brifysgol broses achwynion ffurfiol / complaints process lle gall y Tîm Ymchwiliad a Datrysiad Myfyrwyr ymchwilio i'ch cwyn.

Apêl academaidd / academic appeal ydy apêl yn erbyn penderfyniad pwyllgor arholiadau a gellir ei wneud ar sail gyfyngedig (heblaw am farn academaidd). Os ydych yn credu na chynhaliwyd asesiad yn unol â rheoliadau'r rhaglen a bod ganddoch chi dystiolaeth bod un o'r seiliau yn berthnasol, gallech apelio drwy'r weithdrefn a welwch ar dudalennau Ymchwiliad a Datrysiad Myfyrwyr / Student Investigation and Resolution ar y wefan. Mae Gwasanaeth Cynghori Undeb Brookes / Brookes Union Advice Service yn cynnig cyngor annibynnol ar lawer o agweddau o'ch profiad fel myfyriwr/wraig, gan gynnwys y dull o wneud cwyn neu gyflwyno apêl academaidd.

10. Cymorth i Fyfyrwyr

10.1. Tiwtoriaid a gweinyddwyr IPC

10.1.1. Cyfarwyddwr Cwrs IPC

Mae rheolaeth rhaglen cwrs IPC drwyddi draw, gan gynnwys pryderon a chwynion, yn gyfrifoldeb Cyfarwyddwr Cwrs yr IPC sef Fiona Richardson– gellir cysylltu â Fiona Richardson ar 01865 790312 a thrwy e-bost at frichardson@brookes.ac.uk.

10.1.2. Gweinyddydd Cwrs IPC

Delir â gweinyddiad holl gyrsiau IPC gan y Gweinyddwyr Cwrs - gellir cysylltu â Sasha Carter a Lynne Bennett ar 01865 534093 a thrwy e-bost ar: ipc_courses@brookes.ac.uk.

10.1.3. Arweinydd Modiwl

Bydd gan bob modiwl Arweinydd Modiwl a fydd yn gyfrifol am gyflenwi'r sesiynau a addysgir a'r Arweinydd modiwl ddylai fod eich pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cwestiynau am y cynnwys a addysgir.

10.1.4. Ymgynghorydd Academaidd

Diben Ymgynghori Academaidd yn Oxford Brookes ydy annog pob myfyriwr I ystyried eu datblygiad academaidd, nodi cyfleoedd i ddatblygu'n academaidd, yn broffesiynol ac yn bersonol proffesiynol a phersonol. O wneud hyn, mae Ymgynghori Academaidd yn hyrwyddo ymglymiad effeithiol gyda dysgu a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth academaidd ar draws cyfnod myfyrwyr yn y brifysgol.

Neilltuir Ymgynghorydd Academaidd ar eich cyfer a chewch ddau diwtorial 'rhithiol' gyda'ch Ymgynghorydd Academaidd ymhob modiwl er y gallwch ofyn am gymorth ychwanegol os oes angen. Rôl yr Ymgynghorydd Academaidd ydy'ch cynghori am safon y gwaith academaidd a ddisgwylir ac i fod ar gael os byddwch angen cymorth, er enghraifft os bydd unrhyw anawsterau'n codi sy'n effeithio ar eich gallu i astudio neu i wneud gwaith ar gyfer asesiad.

Cofnodir presenoldeb mewn tiwtorialau Cynghori Academaidd a amserlennir at ddibenion monitro, i gynorthwyo cyfranogiad myfyrwyr a galluogi nodi unrhyw anghenion cymorth yn gynnar.

Os bydd anghenion myfyriwr yn ymestyn tu hwnt i sgôp rôl Ymgynghorydd Academaidd neu arbenigedd yr ymgynghorydd, bydd Ymgynghorwyr Academaidd yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau a chymorth priodol y Brifysgol yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

10.2. Cymorth astudio

Yn ogystal â'r tîm yn IPC, mae gennym ystod o dimau gwasanaethau proffesiynol sydd wedi ymrwymo i helpu ein myfyrwyr i fanteisio i'r eithaf ar eu profiad yn y Brifysgol a chyflawni eu canlyniadau gorau posibl.

Gall Tîm Cynghori Canolog y Myfyrwyr / The Student Central Advice Team helpu gyda phob math o ymholiadau; a chynnig gwybodaeth i chi am brosesau a gweithdrefnau perthnasol i'ch cwrs, megis beth i'w wneud os oes angen amser i ffwrdd arnoch chi.

Gall y Ganolfan Datblygiad Academaidd / Centre for Academic Development gynnig cyngor a chyfarwyddyd i'ch galluogi i astudio'n effeithiol a gwneud eich gorau mewn asesiad. Maen nhw'n cynnig tiwtorialau un i un ac adnoddau a gweithdai ar-lein ar ystod o sgiliau astudio academaidd fydd yn eich helpu i fynegi eich syniadau eich hun a chyrraedd eich llawn botensial academaidd. Mae'n werth i chi bori ar dudalen y Ganolfan Datblygiad Academaidd / Centre for Academic Development ar y we i gael syniad o'r hyn sy'n cael ei gynnig. Mae'r ganolfan hefyd yn cynnig cwrs Moodle ar-lein ar integriti academaidd/ academic integrity fel y gallwch ddysgu am arferion academaidd da ac osgoi gwneud camgymeriadau cyffredin a allai arwain at honiadau o lên ladrata.

Os oes gennych anabledd neu anhawster dysgu penodol sy'n golygu y gallech hawlio addasiadau rhesymol ar gyfer cwblhau eich asesiadau yn deg, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cymorth Cynhwysol / Inclusive Support Service am asesiad o'ch anghenion.

Ymhlith gwasanaethau eraill mae Cymorth Cynhwysol a Chwnsela/ Inclusive Support & Counselling

Byddwch yn rhagweithiol a manteisio i'r eithaf ar y cyngor a'r cyfarwyddyd sydd ar gynnig – peidiwch ag aros nes eich bod yn teimlo eich bod yn cael trafferth. Mae gennym rwydwaith cymorth helaeth ar gyfer myfyrwyr yn Brookes – mae rhagor o gymorth ar gael ar Dudalen Gymorth Myfyrwyr/ Student Support page

10.3. 10.3.Diogelu

Mae sesiynau unigol gydag Ymgynghorwyr Academaidd (tiwtoriaid) a hyfforddwyr yn gyfrinachol. Yr unig eithriad i hyn ydy pan fydd pryderon am ddiogelwch. Os digwydd i fyfyriwr ddatgelu gwybodaeth sy'n awgrymu ei fod/ei bod neu bod rhywun arall mewn perygl o gael eu niweidio, gellir rhannu'r wybodaeth yn unol â'n gweithdrefnau diogelu / safeguarding procedures

10.4. Adnoddau Dysgu

10.4.1. Rhith Amgylchedd Dysgu (Moodle) ac E-bost

Ym Mhrifysgol Oxford Brookes, rydyn ni'n defnyddio Rhith-Amgylchedd Dysgu (VLE), yn cael ei yrru gan Moodle, sy'n caniatáu i chi fod yn rhan o'r dysgu yn y lleoliadau, ar yr adegau a'r cyflymder sy'n addas i chi. Cynlluniwyd Moodle fel

atodiad i'ch seminarau wyneb yn wyneb – dyma'r cyfrwng sy'n caniatáu i chi wneud y canlynol.

- Cyrchu deunyddiau dysgu'ch cwrs
- Canfod help – y man i lawrlwytho cyfarwyddiadau, er enghraifft sut i ddefnyddio'r llyfrgell electronig
- Defnyddio fforymau trafod ar-lein
- Cyflwyno'ch gwaith i'w asesu, gan gynnwys cynlluniau prosiect ac aseiniadau
- Derbyn adborth ar eich aseiniad(au)

Mae cyfres o fideos a dogfennau i'ch helpu i ddefnyddio 'Brookes Virtual' i'w cael yn "Getting Started with Moodle". .

Pan fyddwch yn ymrestru ar gyfer Prifysgol Oxford Brookes byddwch yn awtomatig yn derbyn cyfrif e-bost Brookes drwy G-mail. Mae hyn yn golygu bydd gennych gyfeiriad e-bost '@Brookes.ac.uk' a chael mynediad i gasgliad o Apps gan Google, megis Google Calendar a Google Meet.

Eich enw fel defnyddiwr fydd eich rhif fel myfyriwr Brookes ac fe anfonir cyfrinair atoch chi. Byddwch yn derbyn adborth ar eich gwaith drwy 'Brookes VLE (Moodle)' a chewch negeseuon awtomatig ar e-bost i'ch rhybuddio o'r rhain. Naill ai bydd angen i chi gadw llygaid ar eich cyfrif e-bost Brookes neu eu hanfon ymlaen i gyfeiriad e-bost arall rydych chi'n ei ddefnyddio. Byddwch yn derbyn cyfarwyddyd sut i agor a defnyddio'r 'VLE (Moodle)' wedi i chi ymrestru. I gael help, ewch ar: https://www.brookes.ac.uk/it/

10.4.2. Llyfrgell

Bydd y llyfrgell yn wasanaeth pwysig i chi yn ystod eich cyfnod yn y brifysgol a bydd angen i chi ymgyfarwyddo â'i ddull o weithio. Dysgwch sut i gysylltu â'r llyfrgell am gymorth. Mae tudalennau'r llyfrgell yn orlawn o ganllawiau a gwasanaethau defnyddiol i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar gasgliadau'r llyfrgell. Yn ogystal, mae llyfrgellwyr yno sy'n gwybod llawer am wahanol bynciau. Cewch help penodol ar gyfer eich pwnc ar dudalen gymorth adnoddau ar gyfer maes pwnc eich cwrs y llyfrgell.

Cewch ddefnyddio'r holl gyfleusterau ar y safle yn ogystal â Llyfrgell Prifysgol Brookes ar-lein. Mae gan y llyfrgelloedd ar y safle hefyd ystod eang o gylchgronau a thestunau ar iechyd, lles a gofal cymdeithasol. Mae'r Llyfrgell hefyd yn darparu mynediad i adnoddau ar-lein gan gynnwys basau data a thestunau llawn electronig miloedd o gyfnodolion, y gallwch eu gweld gartref neu yn y gwaith ar dudalen hafan y Llyfrgell, sef: https://www.brookes.ac.uk/library/

Arweinydd eich modiwl fydd yn llunio'r rhestr ddarllen ar gyfer eich modiwlau, gan ddangos yr adnoddau y maen nhw am i chi eu cyrchu, ar gael ar Moodle (dan adran Adnoddau Allweddol/Key Resources pob modiwl). Cewch hefyd y rhestrau darllen ar dudalennau rhestrau darllen y llyfrgell. Os teipiwch rif eich modiwl yn y blwch chwilio ar y dudalen honno, cewch hyd i'r rhestr ddarllen ar gyfer y modiwl hwnnw.

Mae staff y Llyfrgell bob amser yn barod i'ch helpu gyda'ch ymholiadau am wybodaeth. Gellir cysylltu â'r Llyfrgellwyr Pwnc ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol drwy e-bostio healthcarelibrarians@brookes.ac.uk.

10.4.3. 10.4.3.Canolfan Datblygiad Academaidd (sgiliau astudio)

Mae CAD (y Ganolfan Datblygiad Academaidd) yn cynnig ystod o gyfleoedd i'ch helpu gyrraedd eich potensial academaidd. Mae'r rhaglen / The Think Space programme o ddigwyddiadau yn cynnig cyfleoedd cyson i wella'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer eich cwrs, ynghyd ag ystod eang o bynciau, yn cynnwys ymchwil ac ysgrifennu academaidd, gweithio gyda data ystadegol, rheoli amser ac ysgogiad. Os nad ydych wedi astudio yn y DU o'r blaen, efallai y byddai o ddiddordeb arbennig i chi ym modiwlau y Ganolfan, modiwlau sy'n cynnwys credydau a heb fod yn cynnwys credydau a fydd yn eich cyflwyno i iaith ac hinsawdd Brookes. Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnig adnoddau ar-lein,ynghyd â thiwtorialau 1:1 mewn sgiliau astudio.

10.5. Siarter Brookes

Mae Prifysgol Oxford Brookes wedi ymrwymo i gyflenwi profiad nodedig i fyfyrwyr, datblygu ymchwil o'r radd flaenaf, gwneud cyfraniad positif i'n cymuned ehangach ac i greu gwasanaethau uchel eu hansawdd a blaengar y sector ar gyfer y dyfodol. Mae Siarter Brookes yn gosod allan goblygiadau'r ymrwymiadau hyn. Ceir rhagor o wybodaeth ar http://www.brookes.ac.uk/students/your-studies/brookes-charter/ .

Atodiad 1

Cytundeb rhwng y Myfyriwr a'r Asiantaeth Gyflogi

1 Mae'r cytundeb hwn yn datgan ymrwymiadau……..……., yr asiantaeth gyflogi, a ……..……..……., y cyfranogwr, i Dystysgrif Ôl-radd Sefydliad Gofal Cymdeithasol (IPC) mewn Arweinyddiaeth Strategol a Gweithredol ym maes Gofal Cymdeithasol Prifysgol Oxford Brookes. Lluniwyd y cytundeb i sicrhau bydd pob parti yn glir am ofynion y rhaglen ac mae angen ei lenwi a'i lofnodi wrth ymrestru ar y rhaglen.

2 Bydd yr asiantaeth gyflogi yn gwneud y canlynol:

a) Talu ffioedd y rhaglen a osodwyd gan Brifysgol Oxford Brookes.
b) Sicrhau o leiaf 1 diwrnod astudio am bob modiwl a astudir er mwyn cynorthwyo'r cyfranogwr i gwblhau asesiadau o fewn y dedleins.
c) Cynorthwyo a chefnogi'r cyfranogwr gydag unrhyw anghenion mynediad neu gyfathrebu sydd ganddo/ganddi.
d) Sicrhau bod gan y cyfranogwr fynediad i'r rhyngrwyd ac yn gallu cymryd rhan ymhob gweithgaredd dysgu ar-lein.
e) Cynorthwyo'r cyfranogwr drwy gydol y rhaglen. Yn benodol, bydd noddwr rhaglen y cyfranogwr yn cyfrannu at asesiad 360 gradd ar ddechrau a diwedd y rhaglen, yn rhan o drafodaethau am bynciau asesiadau a bydd yn cwblhau arsylwad o arfer yn y gweithle.

3. Bydd y cyfranogwyr yn gwneud y canlynol:

a) Cael mynediad i'r rhyngrwyd i gymryd rhan ymhob gweithgaredd dysgu ar-lein, i lawrlwytho adnoddau a chyflwyno aseiniadau.
b) Hysbysu'r IPC o unrhyw anghenion mynediad neu gyfathrebu perthnasol sydd ganddyn nhw o ran y rhaglen.
c) Ymgymryd â'r paratoi cefndirol, yr ymchwil a'r hunan-astudiaeth sydd eu hangen i gwrdd â gofynion y rhaglen.
d) Cytuno ar bwnc y prosiect yn y gweithle a'r astudiaeth achos sydd i'w asesu, gyda noddwr eu rhaglen neu berson addas arall.
e) Cwrdd â'r dedleins ar gyfer cyflwyno asesiadau.

4 Sylwer bod gofyn i IPC riportio ar bresenoldeb cyfranogwyr ar y rhaglen a'r cynnydd wrth gyflwyno asesiadau i'r asiantaeth gyflogi a noddwr y rhaglen.

Arwyddwyd: …….……..……..…… Cyfranogwr

……..……..……..…Ar ran yr asiantaeth gyflogi

……..……..……..…Dyddiad

Partner dibynadwy mewn gofal cyhoeddus

Mae Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) yn rhan o Brifysgol Oxford Brookes. Rydyn ni'n darparu ymchwil a gwerthuso cymhwysol, ymgynghoriaeth, a hyfforddiant i helpu ymddiriedolaethau'r GIG, cyrff llywodraethol, cynghorau, elusennau a sefydliadau masnachol i gael effaith bositif ar iechyd a llesiant pobl.

Am ragor o wybodaeth

Sefydliad Gofal Cyhoeddus IPC)

Prifysgol Oxford Brookes University

Campws Headington Campus

Gipsy Lane

Rhydychen / Oxford

OX3 0BP

Ffôn: +44 (0)1865 790312

https://ipc.brookes.ac.uk/

https://www.linkedin.com/company/institute-of-public-care-brookes